Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Cronfa Allweddol - Cymunedau Ffyniannus Wrecsam

**Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.**

# Nodiadau Canllaw

## 1. Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam

Prif nod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ydy meithrin ymdeimlad o falchder mewn lle a hybu'r cyfleoedd bywyd ledled y DU.

Yn ogystal â'r prif nod o feithrin ymdeimlad o falchder mewn lle a hybu cyfleoedd bywyd, mae tair blaenoriaeth o ran buddsoddi ynghlwm â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

1. cymunedau a lle;
2. cefnogi busnes lleol; a
3. pobl a sgiliau.

Mae'r prosiect hwn yn bwrw iddi i gyflawni'r flaenoriaeth o fuddsoddi mewn cymuned a lle a byddai'n fodd i leoedd fuddsoddi er mwyn adfer eu mannau a pherthnasau cymunedol, gan fynd ati i osod sylfaen ar gyfer datblygiad economaidd ar lefel cymdogaeth. Y bwriad ydy mynd rhagddi i gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau, gan ategu'r gwaith o feithrin ymdeimlad o falchder mewn lleoedd.

Mae **Cronfa Allweddol – Cymunedau Ffyniannus Wrecsam** yn cynnig cymorth i ganolfannau / cyfleusterau / grwpiau sydd naill ai o dan ofal y gymuned neu sy'n eiddo i'r gymuned fynd ati i ddatblygu, cryfhau a gwella seilwaith cymunedol a phrosiectau cymunedol. Mae'r gronfa yn cynnig cymorth cofleidiol er mwyn i grwpiau cymunedol fanteisio ar Gronfa Allweddol Gymunedol. Gallai'r rheiny sy'n manteisio ar y prosiect hefyd elwa o gymorth ac arweiniad gan swyddog.

Dyma nod Cronfa Allweddol – Cymunedau Ffyniannus Wrecsam:

- Ehangu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny lle maen nhw ar eu gwannaf.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y mannau hynny lle maen nhw wedi'u colli.
- Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig yn y mannau hynny sydd heb weithredaeth leol.

Dyma amcanion y gronfa:

- Cryfhau ein gwead cymdeithasol a meithrin ymdeimlad o falchder lleol a pherthyn, drwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gwella cysylltiadau materol, diwylliannol a chymdeithasol ynghyd â sicrhau ei fod yn fwy rhwydd i fanteisio ar adnoddau, megis seilwaith cymunedol, mannau gwyrdd lleol a phrosiectau o dan ofal y gymuned.
- Creu bröydd cydnerth, iach a diogel drwy fuddsoddi mewn ardaloedd o safon lle mae pobl yn awyddus i fyw, gweithio, chwarae a dysgu ynddyn nhw. Hyn i gyd drwy welliannau wedi'u targedu i'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn ogystal â dulliau gweithredu arloesol tuag at atal troseddu.

## 2. Sut i gael Cyngor ac Ymgeisio

Y pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynllun yw siarad â Swyddog Prosiect y Gronfa Allwedd Gymunedol.

Helen Williams, Cadwyn Clwyd helen.williams@cadwynclwyd.co.uk 01490 340500

Jo Young, AVOW jo.young@avow.org 01978 312556

Bydd Swyddogion y Prosiect yn gallu:

- Darparu gwybodaeth am y cynllun
- Atebwch unrhyw gwestiynau sydd gennych
- Gwiriwch eich cymhwyster
- Trafodwch syniadau sydd gennych ar gyfer y grant
- Eich cynorthwyo i gwblhau cais
- Cynorthwyo ymgeiswyr llwyddiannus i gwblhau'r broses hawlio taliad.

## 3. Pwy all gynnig Prosiect?

Gallai'r mathau canlynol o fudiadau geisio am gyllid sy'n cynnig neu sy'n ymdrechu i gynnig cyfle i fanteisio ar wasanaethau o dan ofal y gymuned a seilwaith cymunedol i gymunedau ledled Wrecsam:

- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol
- Cynghorau Cymuned / Cynghorau Tref
- Elusennau Cofrestredig
- Mentrau cymdeithasol, gan gynnwys cwmnïau cyfyngedig drwy warant, Cwmnïau Buddiant Cymunedol ac Ymddiriedolaethau Datblygu, cyhyd â'u bod yn gweithredu ar sail nid er elw (gan gynnwys Undebau Credyd) Mae CBC trwy gyfrannau wedi'u heithrio o'r cyllid hwn.
- Cydweithfeydd

Gallai consortiwm o grwpiau fynd ati i gynnig Prosiectau ond yn yr achos hwn, byddai'n rhaid nodi'r partner arweiniol yn y Ffurflen Cynnig Prosiect newydd. Ni allai unigolion gynnig prosiectau newydd i Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam.

**Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr feddu ar gyfansoddiad a chyfrif banc o leiaf.**

## 4. Pa Gymorth Ariannol sydd ar gael?

Cronfa Allweddol Gymunedol:

Byddai'n cynnwys grant cronfa allweddol cyfalaf a refeniw er mwyn cefnogi prosiectau cymunedol sydd yn:

- darparu mannau cymunedol, megis neuaddau pentref, mannau gwyrdd neu ganolfannau cymunedol er mwyn i gymdeithas sifil leol a grwpiau cymunedol eu defnyddio;
- hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff mewn dwylo lleol er mwyn gwella'r gwaith pontio i fyw bywydau carbon isel;
- creu a gwella mannau gwyrdd lleol yn y gymuned, gerddi cymunedol, dyfrffosydd a chloddiau, ynghyd ag ymgorffori nodweddion naturiol a gwelliannau i fioamrywiaeth mewn mannau cymunedol ehangach;
- cyflawni a chefnogi gweithgareddau celfyddydau, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol lleol sydd o dan ofal y gymuned;
- cynnig modd i bobl fanteisio ar wasanaethau drwy gyfleusterau chwaraeon lleol;
- cynnig seilwaith digidol mewn asedau a chyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned.

### Trothwyau'r Grant

#### Cymorth y Gronfa Allweddol

Gellir ymgeisio am hyd at £50,000 o gyllid refeniw a £35,000 chyfalaf yn dibynnu ar natur ac effaith y prosiect. Gallwch ymgeisio am gyllid cyfalaf a refeniw ar gyfer eich prosiect.

- furflen gais am grant sylweddol hyd at £50,000 refeniw a £35,000 Cyfalaf (mae'n bosibl caiff symiau mwy eu hystyried pan fo modd i brosiectau ddangos eu bod yn gallu darparu buddion lluosog).

Mae'n rhaid cwblhau'r holl brosiectau erbyn 31ain Ionawr 2026.

### Gwariant Anghymwys

Ystyrir bod yr eitemau canlynol yn anghymwys:

- lobïo sydd wedi'i dalu amdano, sy'n golygu defnyddio'r Grant i ariannu gwaith lobïo (drwy gwmni allanol neu staff mewnol) er mwyn cyflawni gweithgareddau sydd â'r bwriad o ddylanwadu neu geisio dylanwadu

ar weithgarwch y Senedd, y llywodraeth neu weithgarwch gwleidyddol; neu geisio dylanwadu ar weithredu deddfwriaethol neu reoleiddiol;

- defnyddio'r Grant i alluogi un rhan o'r llywodraeth yn uniongyrchol i herio rhan arall ar bynciau sy'n amherthnasol i ddiben cytunedig y grant;
- defnyddio'r Grant i ddeisebu am gyllid ychwanegol;
- treuliau megis ar gyfer difyrru, sydd â'r amcan penodol o ddylanwadu'n ormodol ar newid polisi'r llywodraeth;
- cyflwyno TAW y gellir ei adennill gan dderbynnydd y grant gan Cyllid a Thollau EM;
- taliadau ar gyfer gweithgareddau o natur wleidyddol neu grefyddol yn unig;
- costau staffio cylchol;
- eitemau sydd heb eu cymeradwyo gan y Panel Sgorio
- prynu pethau gydag arian parod
- peiriannau a chyfarpar sylweddol

Dyma enghreifftiau o wariant eraill sydd wedi'u gwahardd:

- cyfraniadau mewn nwyddau;
- taliadau llog neu daliadau tâl gwasanaeth am brydlesi cyllid;
- rhoddion;
- dirwyon statudol, dirwyon neu gosbau troseddol, cosbau sifil, iawndaliadau neu unrhyw gostau cyfreithiol cysylltiedig;
- taliadau ar gyfer gwaith neu weithgareddau lle mae gan dderbynnydd y grant, neu unrhyw aelod o'u Partneriaeth, ddyletswydd statudol i ymgymryd â nhw, neu sydd wedi'u hariannu'n llawn gan ffynonellau eraill;
- dyledion drwg i bartïon cysylltiedig;
- taliadau am ddiswyddo annheg neu iawndaliad arall;
- dibrisiant, amorteiddiad neu amhariad ar asedau sy'n eiddo i Dderbynnydd y Grant;
- caffael neu wella Asedau gan Dderbynnydd y Grant (oni bai bod y Grant er defnydd cyfalaf penodol – caiff hyn ei nodi yn y Llythyr Cyllid Grant); a

- dyledion a gafodd eu gweithredu cyn cychwyn y Cytundeb Cyllid Grant oni bai eu bod wedi'u cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod.

**Cwblhau Ffurflen Gais**

Rhaid derbyn cyngor gan Swyddogion y Prosiect cyn llenwi ffurflen gais.

Mae'r ffurflenni a nodiadau canllaw ar gael yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, a gall ymgeiswyr lenwi'r ffurflenni yn eu dewis iaith.

Mae'r ffurflen gais i'w chwblhau'n electronig. Dylid llenwi'r blychau yn y ffurflen gais mor drylwyr â phosibl.

## 5. Sut caiff y Cymorth Ariannol ei Ddarparu

**Ni chaniateir unrhyw wariant cyn caiff cynnig prosiect ei gymeradwyo.**

### Grantiau

Ynghlwm â'r broses hon, bydd yr ymgeisydd yn talu'r holl gyflenwyr yn uniongyrchol ac yna'n adennill y cyfansymiau y cytunwyd arnyn nhw gan Cadwyn Clwyd gan ddefnyddio Ffurflen Gais Grant. (***Os na allai'r ymgeisydd dalu'r cyfanswm o flaen llaw, ewch ati i drafod hyn gyda swyddog y prosiect a gallwn ystyried opsiynau eraill)***

Byddwn yn cyflwyno'r ffurflen gais i ymgeiswyr llwyddiannus unwaith bydd y prosiect wedi'i gymeradwyo. Bydd gofyn i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion canlynol pan fyddan nhw'n ceisio am gyllid gan Cadwyn Clwyd:

**Gofynion tystiolaeth wrth gyflwyno cais:**

1. **Copi o anfoneb(au) sydd wedi'u talu:** yn dangos 100% o'r costau mae'r ymgeisydd wedi'u hawlio. Mae'n rhaid sicrhau bod enw'r mudiad sy'n hawlio yn ymddangos ar gopïau o'r anfonebau atodol neu dderbynebion lle bo'n briodol. Mae'n rhaid i swyddog perthnasol yn y mudiad ardystio llungopïau. Bydd yn rhaid i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd weld y dogfennau / anfonebau gwreiddiol. Byddwn yn gwirio'r anfonebau er mwyn cadarnhau eu bod yn unol â chais y prosiect.
2. **Datganiadau Banc:** er mwyn dangos tystiolaeth bod y mudiad sy'n adhawlio costau gan Cadwyn Clwyd wedi talu'r costau. Mae'n rhaid i swyddog perthnasol yn y mudiad ardystio llungopïau. Mae'n rhaid i enw'r mudiad a'r rhif cyfrif a rhif didoli ymddangos yn amlwg ar y datganiadau. Mae datganiadau ar-lein yn dderbyniol ond os nad ydy enw'r mudiad yn ymddangos arnyn nhw, gofynnwn yn garedig ichi gyflwyno un copi o ddatganiad banc ar bapur er mwyn inni allu gweld tystiolaeth o enw'r cyfrif ac ati. Dylid sicrhau bod datganiad banc gwreiddiol ar gael i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd fwrw golwg arno.

3. **Tystiolaeth Caffael**: Tystiolaeth i ategu / profi fod y mudiad sy'n adhawlio'r costau wedi cydymffurfio â'r gweithdrefnau caffael yn briodol.
4. **Tystiolaeth o waith sydd wedi'i gyflawni:** e.e. copi o adroddiad ysgrifenedig, tystiolaeth o ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, gwaith Cysylltiadau Cyhoeddus sydd wedi'i gyflawni ac ati.
5. **Adroddiad Cynnydd Ysgrifenedig:** bydd angen ichi gwblhau Adroddiad Cynnydd. Byddwn yn darparu templed i ymgeiswyr llwyddiannus unwaith caiff y prosiect ei gymeradwyo. Dylid cyflwyno'r adroddiad i Cadwyn Clwyd ar adegau penodol yn ystod y prosiect fel sydd wedi'i nodi yn eich Llythyr Cymeradwyo.
6. **Tystiolaeth o'r Allbynnau:** bydd angen ichi gyflwyno Tystiolaeth o'r Allbynnau. Byddwn yn darparu ffurflenni templed unwaith caiff eich prosiect ei gymeradwyo ac fe ddylid ei gyflwyno i Cadwyn Clwyd ar adegau penodol yn ystod y prosiect fel sydd wedi'i nodi yn eich Llythyr Cymeradwyo.

## Caffael

Mae'n rhaid i'r holl brosiectau caiff eu hariannu ddangos gwerth am arian a phroses caffael nwyddau a gwasanaethau sy'n agored ac yn dryloyw.

**Mae'n rhaid i'r prosiectau gydymffurfio gyda'r gofynion canlynol ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau:**

**Cynghorir bod yr holl ymgeiswyr yn ceisio cyngor gan y swyddog prosiect cyn mynd ati i gychwyn unrhyw broses caffael.**

| Gwerth Terfynol y Nwyddau / Gwasanaethau (heb gynnwys TAW) | Gofyn | Cam gweithredu |
|---|---|---|
| £0 - £2,499 | Un dyfynbris ysgrifenedig* | |
| £2,500 - £24,999 | O leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig* | 3 dyfynbris neu brisiau ysgrifenedig wedi'u caffael gan gyflenwyr nwyddau, gwaith a / neu wasanaethau perthnasol. |
| £25,000 + | Proses tendro ffurfiol* | Ar gyfer prosiectau sy'n derbyn mwy na 50% o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin / cyllid Cyhoeddus, mae gofyn iddyn nhw hysbysebu ar y porth www.sell2wales.gov.wales (Gallai Swyddog gynnig cymorth a help os oes angen). |

Ar gyfer dyfynbrisiau ar sail debyg, byddwn yn dewis y cyflenwr sy'n cynnig y dyfynbris rhataf. Fodd bynnag, bydd rhai amgylchiadau lle na fyddai o reidrwydd yn briodol i dderbyn y dyfynbris rhataf. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn wasanaethau lle gallai'r cynnyrch terfynol amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y cyflenwr, ac ni all manyleb ysgrifenedig danategu hyn. Er enghraifft, comisiynu arbenigwr i lunio copi ar gyfer llyfryn neu gysylltu gydag artist i greu gwaith celf. Yn yr achosion hyn, gellir rhoi proses sgorio ar waith ynghlwm â'r broses caffael,

gyda manylion o sut caiff y cyflenwr ei ddewis wedi'i amlinellu'n eglur yn y ddogfen fanyleb gaiff ei gyflwyno i'r darparwyr. Os ydy arweinwyr y prosiect yn awyddus i gyflawni caffaeliad wedi'i sgorio, fe ddylen nhw gysylltu gyda Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd, a fyddai'n cydweithio gyda nhw i lunio dogfen fanyleb.

Byddai dadansoddiad sgorio nodweddiadol fel a ganlyn:

- **Gwerth am arian** (20 marc) 20%
- **Dull, Profiad a Gwybodaeth** 80%
  - Ymateb i'r briff (40 marc)
    Tystiolaeth bod yr ymgynghorydd yn deall y briff yn gyfan gwbl ac esboniad eglur o sut caiff y cytundeb ei gyflawni gyda graddfeydd amser arfaethedig
  - Profiad yr Ymgynghorwyr (40 marc)
    Sgiliau perthnasol yr ymgynghorydd a phrofiad o weithio ar brosiectau tebyg.

## 6. Gwybodaeth bellach a sut i ymgeisio

### Proses Ymgeisio am y Gronfa Allweddol

Mae ffurflenni cais ar gael gan Cadwyn Clwyd ac AVOW. Mae'n rhaid ichi geisio cyngor gan Swyddog Cadwyn Clwyd neu Swyddog AVOW cyn llunio ffurflen gais.

Caiff Ffurflenni Cais sydd wedi'u cwblhau eu dwyn i ystyriaeth bob yn dipyn. Bydd y panel grantiau yn gyfrifol am eu hasesu.

Caiff y prosiectau eu hasesu ar sail y meini prawf canlynol:

Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Ydy gweithgarwch y prosiect yn gymwys yn unol â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU | Ydy neu Nac ydy |
| Ydy'r ymgeisydd a gweithgarwch y prosiect yn gymwys yn unol â phrosiect Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam? | Ydy neu Nac ydy |
| Graddfa amser realistig ar gyfer cyflawni'r prosiect (h.y. gellir ei gyflawni a'i gwblhau erbyn Ionawr 31ain 2026) | Ydy neu Nac ydy |

Os ateboch chi 'Ydy' i bob un o'r cwestiynau uchod, gallai'r prosiect fynd rhagddi i'r broses sgorio.

Sgorio

| | |
|---|---|
| Ategu blaenoriaethau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU | Sgôr allan o 10 marc |
| Cyfraniad a chefnogaeth tuag at y prosiect gan y gymuned | Sgôr allan o 10 marc |
| Allbynnau a Deilliannau arfaethedig (gan gynnwys sut gallai'r prosiect dargedu cymorth bellach gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig) | Sgôr allan o 10 marc |
| Wedi derbyn Cyllid SPF yn y rhaglen flaenorol | Sgôr allan o 10 marc |

| Gwerth am Arian | Sgôr allan o 10 marc |
|---|---|

Mae angen i gynnig dderbyn sgôr o 24 neu fwy inni ei ddwyn i ystyriaeth i'w gymeradwyo.

## Dangosyddion Allbynnau a Deilliannau'r Prosiect

Yn ystod cam Cynnig y Prosiect, bydd gofyn i bob prosiect ddatgan yr Allbynnau a'r Deilliannau bydd eu prosiect yn ei gyflawni. Caiff yr Allbynnau a'r Deilliannau hyn eu dwyn i ystyriaeth fel rhan o broses asesu Cynnig y Prosiect.

Buddiolwyr y Prosiect

| Allbynnau | Diffiniad | Tystiolaeth Angen i Hawlio'r Grant |
|---|---|---|
| **OP25 Nifer y mudiadau sy'n derbyn grantiau** | Nifer y mudiadau sy'n derbyn grantiau.<br>Byddai'r mudiadau yma naill ai yn:<br>- Fuddiolwr terfynol sef derbynnydd y grant ei hun, er enghraifft, awdurdod lleol, sefydliad addysg uwch neu fudiad sy'n cynrychioli sector penodol a allai fod yn cyflawni astudiaeth ddichonoldeb.<br>- Mudiad sy'n fuddiolwr terfynol ac sydd ddim yn cyd-fynd â'r disgrifiad uchod ac ni ellir ei ddosbarthu o dan ddangosyddion allbwn y busnes, er enghraifft mudiad elusennol.<br>- Mae grant yn golygu taliad arian parod gan y prosiect na chaiff ei ad-dalu. | Enw'r sefydliad; Cyfeiriad y sefydliad (gan gynnwys y cod post); Swm y grant a dderbyniwyd ac at ba ddiben. |
| **OP26  Nifer y mudiadau sy'n derbyn cymorth anariannol** | Nifer y mudiadau sy'n derbyn cymorth anariannol gyda'r bwriad o wella perfformiad.<br><br>Bydd y mudiadau yma naill ai yn:<br>- Fuddiolwr terfynol sef derbynnydd y grant ei hun, er enghraifft, awdurdod lleol, sefydliad addysg uwch, neu fudiad sy'n cynrychioli sector penodol a allai fod yn | Enw'r sefydliad; Cyfeiriad y sefydliad (gan gynnwys y cod post); Math o gymorth anariannol a dderbyniwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | cyflawni astudiaeth ddichonoldeb.<br>- Mudiad sy’n fuddiolwr terfynol ac sydd ddim yn cyd-fynd â’r disgrifiad uchod ac ni ellir ei ddosbarthu o dan ddangosyddion allbwn y busnes, er enghraifft mudiad elusennol.<br>- Mae cymorth anariannol yn golygu cyngor busnes, arweiniad, mentora a hyfforddiant. Mae’n rhaid i hyn ymwneud â rhyw fath o ryngweithio uniongyrchol gydag aelodau’r mentrau – mewn geiriau eraill ni allai fod yn gyngor wedi’i ddarlledu. Gallai’r cymorth fod yn barhaus.<br>- Mae perfformiad wedi gwella yn golygu gostyngiad mewn costau neu gynnydd mewn trosiant / elw. | |
| **OP05 Nifer yr adnoddau / cyfleusterau sydd wedi’u creu neu eu gwella** | Y nifer o adnoddau / cyfleusterau newydd sydd wedi’u creu neu eu gwella.<br>- Mae adnodd / cyfleuster yn golygu unrhyw wasanaeth mewn adeilad materol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i lys ynadon, gorsafoedd heddlu, neuaddau tref, cyfleusterau chwaraeon, ysbytai a thai bach cyhoeddus.<br>- Mae wedi’u creu yn golygu nad oedd yr adnodd / cyfleuster yn bodoli o’r blaen.<br>- Mae 'wedi’u gwella’ yn golygu ychwanegu, adfer neu atgyweirio cyfleusterau gyda’r nod o greu man cyhoeddus gwell. Nid yw’n golygu cynnal a chadw cyfleusterau presennol. | Lleoliad (gan gynnwys cyfesurynnau); Pennu os 'creu' neu 'wella' pa wasanaeth sy'n cael ei wella neu ei greu; Ffotograffau o'r adeilad neu'r gofod cyn ac ar ôl hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | Os caiff adnoddau / cyfleusterau eu hystyried fel rhai sydd wedi'u gwella neu eu creu mewn dangosydd allbwn arall (e.e. nifer o asedau diwylliannol wedi'u hategu / eu creu) ni ddylid eu hystyried ynghlwm â'r dangosydd hwn yn ogystal. Dylai'r Awdurdod Lleol benderfynu pa ddisgrifiad maen nhw'n fwy perthnasol iddo. | |
| **OP12 Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir** | Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogir. Mae digwyddiad yn cyfeirio at weithgareddau cynlluniedig. Dylai'r rhain berthyn i'r categorïau isod:<br>- Y rhai sy'n ymwneud â: (1) Ffilm, Teledu, Cerddoriaeth, Radio (2) Treftadaeth (3) Celfyddydau, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd.<br>- Mae gweithgareddau a digwyddiadau eraill yn cynnwys, er enghraifft ond heb fod yn gyfyngedig i, chwaraeon, gwirfoddoli, twristiaeth a gweithredu cymdeithasol. | Manylion digwyddiadau a gweithgareddau a gefnogwyd; dyddiad, lleoliad, enw digwyddiad/gweithgaredd a disgrifiad |
| **OP02 Cyfanswm y mannau gwyrdd neu las sydd wedi'u creu neu eu gwella** | Cyfanswm y metredd sgwâr o fannau gwyrdd neu las sydd wedi'u cwblhau neu eu gwella.<br>- Mae man gwyrdd neu las yn cyfeirio at unrhyw dir llystyfiant, neu ddŵr, mewn ardal drefol neu fan cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys: parciau, gerddi cyhoeddus, caeau chwarae, mannau chwarae i blant, coedwigoedd neu fannau naturiol eraill, mannau glaswellt, mynwentydd, rhandiroedd yn ogystal â choridorau gwyrdd megis | Cyfeiriad (gan gynnwys cod post); Metrau sgwâr wedi'u cwblhau neu eu gwella. Nodwch os 'cwblhawyd' neu 'wella'; Ffotograffau o'r adeilad neu'r gofod cyn ac ar ôl hynny. |

| | | |
|---|---|---|
| | llwybrau. Nid yw'n cyfeirio at fannau palmantog rhwng neu o amgylch adeiladau; ar gyfer y rhain, gwelwch ddangosyddion sy'n ymwneud â "tir cyhoeddus".<br>- Mae wedi'u creu yn golygu creu man gwyrdd neu las ffisegol, sy'n agored i'r cyhoedd, nad oedd yn bodoli eisoes.<br>- Mae wedi'u gwella yn golygu, ychwanegu, adfer neu atgyweirio cyfleusterau a thirlunio. Nid yw'n cyfeirio at gynnal a chadw mannau gwyrdd presennol, megis torri glaswellt, tocio a glanhau. | |
| **Deilliannau** | | |
| **OC19 Nifer y rhaglenni celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth a chreadigol a arweinir gan y gymuned o ganlyniad i gefnogaeth** | Nifer y rhaglenni a ddechreuwyd oherwydd cymorth a ddarparwyd gan ymyriadau UKSPF. Mae'r dangosydd hwn yn canolbwyntio ar raglenni sy'n cael eu harwain gan y grwpiau cymunedol (grŵp neu sefydliad hunanlywodraethol a dielw sy'n gweithio er budd y cyhoedd) ac mae'n canolbwyntio ar bynciau'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth. | Lleoliad (gan gynnwys cod post); Enw'r digwyddiad; Disgrifiad o'r digwyddiad; Math o gefnogaeth a ddarperir. |
| **OC04 Cynnydd yn nifer o ddefnyddwyr cyfleusterau / adnoddau** | Y cynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr cyfleusterau / adnoddau. Defnyddwyr ydy'r bobl hynny sy'n defnyddio cyfleusterau / adnoddau.<br>Mae adnodd / cyfleuster yn cyfeirio at unrhyw wasanaeth mewn adeilad ffisegol, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i lys ynadon, gorsafoedd heddlu, neuaddau tref, sefydliadau diwylliannol, ysbytai a thai bach cyhoeddus. | Cyfeiriad y cyfleusterau/amwynderau. Ffigurau gwaelodlin cyn darparu cymorth. Gwybodaeth i gefnogi'r ffigurau a adroddwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd adrodd hefyd yn hwyluso'r opsiwn o adrodd am fetrig lleihad. | |
| **OC29 Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd o ganlyniad i gefnogaeth** | Nifer y rolau gwirfoddoli wedi'u trefnu a grëwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r ymyriad. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i bobl wirfoddoli'n rheolaidd, a chyfleoedd i wirfoddoli unwaith ac am byth.<br>- Mae gwirfoddoli ffurfiol yn cyfeirio at y rhai sydd wedi rhoi cymorth di-dâl drwy grŵp, clwb neu sefydliad: er enghraifft, arwain grŵp, cymorth gweinyddol neu gyfeillio neu fentora pobl. | Cyfenw; Rhan gyntaf y cod post; Manylion rôl a gweithgaredd gwirfoddoli a gyflawnwyd. |

## Rheolau Rheoli Cymorthdaliadau

*Mae'r adran hon ond yn berthnasol i Fentrau Cymdeithasol, Cwmnïau Buddiant Cymunedol a Grwpiau Cymunedol sy'n masnachu e.e. Siop, Tafarn neu Gaffi.*

Mae'n rhaid i Grantiau Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam gydymffurfio gydag ymrwymiadau Rheoli Cymorthdaliadau rhyngwladol y DU. Mae'r holl grantiau yn amodol ar reolau Rheoli Cymorthdaliadau'r DU. Mae mwy o wybodaeth yma: Guidance on the UK's international subsidy control commitments - GOV.UK (www.gov.uk)

Caiff grantiau sydd wedi'u cyflwyno trwy'r ffynhonnell ariannu hon eu pennu fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA), yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau (2022). Mae'n rhaid i'r ymgeisydd nodi'r holl gymorthdaliadau maen nhw wedi'i dderbyn ar eu ffurflen gais, gan gynnwys cynlluniau rhagflaenol megis de minimis y DU; 'Eithriad Symiau Bach o Gyllid' (SAFE); 'Symiau Bach o Gymorth Ariannol' (SAFA); a 'Hawliau Arbennig Tynnu Arian (SDR), a dderbyniwyd yn ystod eu blwyddyn ariannol bresennol a'u dwy flynedd ariannol flaenorol. **Mae Hawliau Arbennig Tynnu Arian yn uned IMF ac mae 325,000 Hawliau Arbennig Tynnu Arian yn oddeutu £315,000 ar hyn o bryd.** Caiff y cyfanswm Sterling cyfatebol ei bennu gan ddefnyddio'r Trawsnewidydd SDR y Gronfa Ariannol Ryngwladol . **Mae'r ymgeisydd yn gyfrifol dros sicrhau nad ydy cyfanswm y Cymorth Ariannol Lleiaf sydd wedi'i ddyfarnu i'r fenter yn uwch na'r uchafswm o £315,000 mewn unrhyw gyfnod ariannol treigl o dair blynedd.** Bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr nodi'n amlwg yr holl gymorth wnaethon nhw ei dderbyn yn ystod y raddfa amser penodol er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n torri'r rheolau rheoli cymorthdaliadau. Mae Cymorth Ariannol Lleiaf yn ymwneud â grantiau yn ogystal â chymorth megis gwasanaethau ymgynghori am ddim neu gymorthdaledig, cyngor marchnata ac ati.

Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd nodi ar eu ffurflen gais pa brosesau sydd ganddyn nhw ar waith i fonitro'r cyllid cyhoeddus y mae'r fenter wedi'i dderbyn a monitro cymorth yn unol â Rheoli Cymorthdaliadau. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gadw cofnodion o'r cymorth maen nhw wedi'i

dderbyn am 10 mlynedd. Os ydyn nhw'n torri'r rheolau hyn, gallai'r ymgeisydd fod yn atebol i dalu gwerth llawn y cymorth a dderbyniwyd a/neu'r pris llawn a fyddai fel arall yn daladwy am y gwasanaethau a dderbyniwyd. Byddai Cadwyn Clwyd a Chyngor Wrecsam hefyd yn cadw cofnod o'r holl ddyfarniadau cyllid.

## 7. Telerau ac Amodau

**Brandio a Chyhoeddusrwydd**

Ariennir prosiect Cronfa Allweddol Sir Wrecsam gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF). Mae'n ofynnol i Cadwyn Clwyd roi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan yr UKSPF wrth gyfathrebu'r prosiect i fuddiolwyr a/neu'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio logo Llywodraeth y DU isod a hefyd logos Cyngor Sir Wrecam a Chadwyn Clwyd a AVOW.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CADWYN CLWYD

AVOW
Association of Voluntary Organisations in Wrexham
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Mae'n bwysig bod safle'r logos yn y lle cywir, a dyma'r safleoedd: Logo Llywodraeth y DU ar y chwith uchaf; Logo Cadwyn Clwyd a AVOW ar y dde uchaf; Logo Cyngor Sir Wrecsam ar y chwith ar y gwaelod. Gall y Swyddog Prosiect Grantiau Busnes roi arweiniad llawn.

Fel rhan o ofyniad Cadwyn Clwyd i roi cyhoeddusrwydd i gymorth yr UKSPF, cynghorir derbynwyr grantiau y bydd manylion y cytundeb grant yn cael eu cyhoeddi. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i dderbynwyr grantiau:

- Cymryd rhan mewn datganiadau i'r wasg Cadwyn Clwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r gronfa a hyrwyddo straeon newyddion da am y gronfa ynghyd â'r gefnogaeth a dderbyniwyd.
- Cymryd rhan mewn astudiaethau achos ar-lein Cadwyn Clwyd i hyrwyddo a chyfathrebu'r gefnogaeth a dderbyniwyd.
- Cymryd rhan yng nghyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol Cadwyn Clwyd i hyrwyddo a chyfathrebu'r gefnogaeth a dderbyniwyd.

Anogir derbynwyr grantiau i roi cyhoeddusrwydd i'r cymorth a gânt yn eu cyfryngau cyfathrebu eu hunain. Mewn achosion o'r fath, dylai derbynwyr grantiau ddilyn y canllawiau isod:

- Cynnwys logo Llywodraeth y DU, Cyngor Sir Wrecsam, Cadwyn Clwyd a logos AVOW.

- Cynnwys y testun canlynol wrth gyfathrebu:

  ***“Mae’r [rhowch enw’r prosiect] hwn wedi derbyn £[NODWCH SWM] gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.”***

- Wrth ddisgrifio neu hyrwyddo'r grant ar gyfryngau cymdeithasol dylid defnyddio'r hashnod canlynol #UKSPF, a bydd Llywodraeth y DU yn aildrydaru hwn.

- Tagiwch y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol canlynol fel y gall Cadwyn Clwyd a’r Corff Arweiniol ymateb a/neu rannu ac ail-drydar cynnwys:

| Mudiad | Llwyfan | Enwau |
|---|---|---|
| Cadwyn Clwyd | Facebook | @CadwynClwyd<br>@CadClwyd |
| | Twitter | @CadwynClwyd |
| AVOW | Facebook | @AVOW |
| | Twitter | @AVOW |
| Cyngor Wrecsam | Facebook | @Cyngorwrecsam<br>@WrexhamCountyBoroughCouncil |
| | Twitter | @Cyngorwrecsam<br>@Wrexhamcbc |
| | Instagram | @cyngorwrecsam<br>@Wrexhamcbc |

## Cofrestr Asedau

Byddai Cadwyn Clwyd yn cadw cofnod o’r holl Asedau sydd wedi’u caffael neu eu gwella am gost uwch na £5,000 (pum mil o bunnoedd) gan ddefnyddio’r cyllid grant yn gyfan gwbl neu’n rhannol. Mae Ased yn cyfeirio at unrhyw Ased sydd wedi’u prynu neu eu datblygu gan ddefnyddio’r cyllid grant, gan gynnwys unrhyw gyfarpar neu unrhyw asedau eraill a allai fod yn Ased Sefydlog fel sy’n briodol yn y cyd-destun perthnasol. At hyn, bydd Asedau yn cael eu dehongli yn unol â hynny. Mae Asedau Sefydlog yn cyfeirio at unrhyw gyfarpar a gafodd ei gaffael, ei ddatblygu ei wella neu ei adeiladu ynghlwm â’r gweithgareddau sydd wedi’u hariannu sydd â gwerth o o leiaf £5,000 (pum mil o bunnoedd) ar y dyddiad prynu. Mae’n rhaid defnyddio’r Asedau sydd wedi’u prynu gan y prosiect gyda’r cyllid grant yn y modd y mae’r fenter wedi’i grybwyll ar y ffurflen gais. Bydd gofyn i’r fenter gyflwyno’r wybodaeth ganlynol i Cadwyn Clwyd ar gyfer yr holl asedau ar y gofrestr:

i. Perchennog yr Ased;
ii. Dyddiad caffael neu wella’r Ased;
iii. Disgrifiad o’r Ased;
iv. Cost yr ased, net o DAW y gellir ei adennill;
v. Lleoliad yr Ased;
vi. Rhifau cyfresol neu adnabod yr Ased;

vii. Dyddiad unrhyw werthiant o'r Ased;
viii. Polisi dibrisiant / amorteiddiad mewn grym gyda'r Ased;
ix. Enillion unrhyw werthiant o'r Ased, net o DAW; ac
x. Manylion unrhyw berson y mae'r Ased wedi'i drosglwyddo neu ei werthu iddyn nhw.

Dylai'r fenter gadw'r Asedau am y Cyfnod Perchnogaeth Asedau. Bydd yn rhaid i'r Ymgeisydd geisio am hysbysiad ffurfiol gan Cadwyn Clwyd i werthu'r ased. Pe bai'r prosiect yn defnyddio unrhyw ran o'r cyllid grant i ddatblygu, gwella neu brynu unrhyw Asedau, mae'n rhaid i'r fenter sicrhau caiff yr Asedau eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da yn ystod y Cyfnod Perchnogaeth Asedau. Yn ystod y Cyfnod Perchnogaeth Asedau, mae'n rhaid i'r fenter sicrhau na chaiff unrhyw asedau sydd wedi'u prynu'n gyfan gwbl neu'n rhannol, eu hadfer, eu hamddiffyn (eu cynnal a'u cadw neu eu diogelu rhag difrod) neu eu gwella gyda'r cyllid grant eu gwaredu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cadwyn Clwyd. Mae gwaredu yn golygu gwaredu, gwerthu, trosglwyddo ased neu unrhyw fuddiant mewn unrhyw ased ac mae'n golygu caiff unrhyw gytundeb ar gyfer gwaredu ei ddehongli'n unol â hynny. Os ydy grantiau Cadwyn Clwyd yn caniatáu'r Gwarediad, gall caniatâd o'r fath fod yn amodol ar fodloni amodau penodol, i'w pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys ad-dalu rhan neu'r holl gyllid grant gan y fenter. Os ydy'r fenter yn Gwaredu Asedau heb ganiatâd Cadwyn Clwyd yna bydd gwerth cyflawn y cyllid grant a gafodd ei wario ar yr Ased hwnnw'n daladwy i Cadwyn Clwyd. Ni ddylai'r fenter ganiatáu, ac fe ddylen nhw sicrhau, nad ydy perchennog yr Ased yn creu unrhyw dâl, morgais cyfreithiol, dyledeb neu hawlrwym ynghlwm ag unrhyw Ased heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cadwyn Clwyd.

## Monitro a Gwerthuso

Mae hawl gan Lywodraeth y DU archwilio sut mae mudiadau'n rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Mae'n rhaid i Cadwyn Clwyd ac AVOW gydymffurfio gyda chais archwilio ymhen graddfeydd amser penodol ac fel y cyfryw gellir cysylltu gyda'r unigolion hynny sy'n rhan o'r prosiect i ddarparu tystiolaeth o'r gwariant.

## Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a Sero Net

Mae'n rhaid i'r holl brosiectau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol gan Gronfa Allweddol Cymunedau Ffyniannus Wrecsam gydymffurfio â'r canlynol

### Cydraddoldeb

Bydd Cadwyn Clwyd ac AVOW yn sicrhau bod dull gweithredu rhagweithiol ar waith i hybu cyfleoedd o ran cyfraniad y prosiect tuag at bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchodedig fel sydd wedi'i grybwyll yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gan hynny, bydd effeithiau posibl gweithrediadau'r prosiect ar y grwpiau nodweddion gwarchodedig yn ystyriaeth allweddol ar gyfer grŵp llywio'r prosiect wrth iddyn nhw gymeradwyo ceisiadau ar gyfer y gronfa allweddol.

Dylai ymgeiswyr y gronfa allweddol ystyried a gweithredu, pan fo'n briodol, teilwra gweithrediadau'r prosiect sydd wedi'i ariannu i ddiwallu anghenion mynediad grwpiau nodweddion gwarchodedig; datblygu prosesau monitro sy'n ymdrin ag asesiad cydraddoldeb penodol; cydweithio'n frwd gyda mudiadau a grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli'r rheiny sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod buddion buddsoddiad y prosiect yn cael eu hybu i'r eithaf ar gyfer y grwpiau hynny.

## Yr Iaith Gymraeg

Bydd yn rhaid i Ymgeiswyr Prosiectau sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ynghlwm â'r holl weithgarwch a chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo a'i hwyluso'n weithredol yng nghyd-destun holl weithgarwch y prosiect.
Bydd Cadwyn Clwyd ac AVOW yn darparu cyngor rhagweithiol i ymgeiswyr er mwyn eu helpu i ddeall y gofynion o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ynghlwm â'r prosiect.
Mae gofyn i'r holl gyfathrebiadau gyda'r cyhoedd a buddiolwyr y prosiect, sydd wedi'u hariannu gan y prosiect, fod yn ddwyieithog e.e. gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, taflenni ac ati.

Caiff grwpiau cymunedol a buddiolwyr y prosiectau eu hannog i fanteisio ar gymorth megis, Helo Blod, Menter Iaith ac asiantaethau a gwasanaethau perthnasol eraill.

## Sero Net

Dylai ymgeiswyr y Gronfa Allweddol ddwyn i ystyriaeth pwyslais Llywodraethau'r DU a Chymru ar gyfrannu tuag at amcanion sero net ac ystyriaethau amgylcheddol ehangach. Bydd ymyriadau'n seiliedig ar arfer gorau carbon isel neu ddi-carbon, mabwysiadu a chefnogi technoleg lân arloesol lle'n bosibl a chefnogi'r sgiliau a'r cadwyni cyflenwi cynyddol er mwyn ategu sero net lle'n bosibl. Fe ddylai'r ymgeisydd gofleidio'r egwyddor twf glân a chyfrannu'n uniongyrchol tuag at ymrwymiad cyfreithiol y DU i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050.

I ategu twf gwyrdd, bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr ystyried sut gall eu prosiectau gyd-dynnu gyda'r amgylchedd naturiol i gyflawni amcanion y prosiect, ac – o leiaf – ystyried effaith y prosiectau ar ein hasedau naturiol ac ein byd natur.

https://www.gov.wales/welsh-government-net-zero-strategic-plan

https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy

## Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd

Mae Cadwyn Clwyd yn ymdrin â phreifatrwydd data yn ddifrifol dros ben ac yn cydymffurfio gyda holl agweddau fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r DU, sy'n cynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) Ewrop a deddfwriaeth y DU ei hun. Gallwch fwrw golwg ar ein polisi preifatrwydd yma http://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/Cadwyn-Clwyd-Privacy-Policy.pdf